PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# COFNODION Y CYNGOR

Yng nghyfarfod y Cyngor
a gynhaliwyd yn y Brifysgol ar 24 Gorffennaf 2024

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Ms Nida Ambreen, Yr Athro Edmund Burke, Yr Athro Rhiannon T. Edwards, Dr Ama Eyo, Mr Eric Hepburn CBE, Syr Paul Lambert, Ms Julie Perkins, Dr John T. Prabhakar, Mrs Emily Rees, Dr Ian Rees, Mr Gwion Rowlands, Mr Rheon Tomos, Yr Athro Oliver Turnbull, Yr Athro David Viner, Yr Athro Tim Wheeler DL, Yr Athro Jean White CBE a Ms Elin Wyn.

**Ymddiheuriadau:**
Yr Athro Nicky Callow, Mr Atul Devani, Mrs Gwenan Hine, Dr Aled Ll. Jones a'r Athro Paul Spencer

**Yn bresennol hefyd:**
Mr Michael Flanagan (Prif Swyddog Trawsnewid), Mrs Patricia Murchie (Prif Swyddog Marchnata), Mr Martyn Riddleston (Prif Swyddog Cyllid) a Mr Mike Wilson (Prif Swyddog Strategaeth a Chynllunio)

**Hefyd:**
Yr Athro Andrew Edwards, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg, Ymgysylltu Dinesig, Partneriaethau Strategol a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant), ar gyfer eitemau 23.78 a 23.79), Dr Llion Jones, (Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr), ar gyfer eitem 23.78 a’r Athro Enlli Thomas (Dirprwy Is-Ganghellor/Pennaeth Coleg Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas), ar gyfer eitemau 23.78 a 23.79.

*Cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghanolfan Fôr Cymru, Prifysgol Bangor ac ar Teams.*

## 23.75 CROESO

Croesawodd Cadeirydd y Cyngor yr aelodau i gyfarfod olaf y Cyngor yn y flwyddyn academaidd gyfredol. Croesawyd Ms Nida Ambreen, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, a Mr Gwion Rowlands, Llywydd UMCB i'w cyfarfod cyntaf fel aelodau o’r Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor am eu hyblygrwydd, oherwydd bu’n rhaid aildrefnu'r cyfarfod, a hynny i ddechrau oherwydd yr Etholiad Cyffredinol ac yna ar y funud olaf, oherwydd gwaith gosod wyneb newydd ar Ffordd y Coleg.

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion y cofnodion. Ni nodwyd dim gwrthwynebiadau. Cadarnhawyd y câi'r recordiad ei ddinistrio unwaith y byddai'r cofnodion yn barod.

## 23.76 DATGELU BUDDIANNAU

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgelu unrhyw fuddiannau personol, ariannol neu fanteisiol mewn unrhyw fater a gaiff ei ystyried yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Datgelodd Syr Paul Lambert fuddiant yn eitem 23.83B (Diweddariad Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr) ar yr agenda, oherwydd cysylltiad teuluol. **[Materion Cyfyngedig]**

Ni ddatgelwyd dim buddiannau eraill ynglŷn â'r materion oedd ar yr agenda.

## 23.77 MARWOLAETHAU

A. Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau diweddar y canlynol:

- **Tallie Brazier,** Myfyriwr a raddiodd yn ddiweddar o'r Ysgol Gwyddorau Eigion
- **Yr Athro Roger Eston,** Cyn Bennaeth yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer
- **Howard Wyn Jones,** Cyn Dechnegydd Cefnogi Systemau, y Gwasanaethau Digidol
- **Claudia Williams,** Cymrawd er Anrhydedd
- **Omanchi Agbaji,** Myfyriwr ar y cwrs MSci Seicoleg gyda Seicoleg Glinigol a Seicoleg Iechyd, yr Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon
- **Yr Athro Shanti Chakravarty,** Cyn Athro Economeg, Ysgol Busnes Bangor
- **Dr Justin Lloyd,** Cyn Gynorthwyydd Addysgu yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, a chyn Fyfyriwr yn yr Ysgol Seicoleg
- **Norma Wyn-Jones,** Cyn Aelod o Staff yr Ysgol Gwyddorau Eigion

Safodd yr Aelodau mewn tawelwch er cof amdanynt.

## 23.78 BRIFFIO: STRATEGAETH Y GYMRAEG

A. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Athro Andrew Edwards a Dr Llion Jones i gyflwyno briff ynghylch Strategaeth y Gymraeg. Nodwyd mai pwrpas y papur briffio oedd rhoi sicrwydd i aelodau'r Cyngor bod gan y Brifysgol strategaeth gadarn ar gyfer y Gymraeg a darparu manylion y cynlluniau sydd ar waith i'w gweithredu'n llwyddiannus.

Rhoddodd Dr Llion Jones wybodaeth gefndir a chyd-destun i'r Cyngor. Nodwyd y cafodd Strategaeth y Gymraeg ei diweddaru fel rhan o adolygiad o'r is-strategaethau sy'n sail i Strategaeth 2030 y Brifysgol. Hysbyswyd yr aelodau bod 'Y Gymraeg a'r Amgylchedd Dwyieithog' yn un o'r tair colofn sy'n sail i'r Strategaeth. Nodwyd y cafodd y strategaeth ddiwygiedig ddrafft ei chymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol fis Mawrth 2024. Cafodd Cynllun Gweithredu ei ddatblygu a bydd yn cael ei fonitro gan Bwyllgor yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant. Mae'r Cynllun Gweithredu yn

ymateb i'r heriau y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu wrth gyflawni ei hamcanion strategol ar gyfer y Gymraeg.

Nododd Dr Jones ei fod yn falch o’r cyfle i draddodi gerbron y Cyngor ar hyn o dro, oherwydd y gwaith a wnaed dros y misoedd diwethaf i ddiweddaru'r Strategaeth a datblygu'r Cynllun Gweithredu. Disgrifiodd yr Athro Edwards y prif heriau sy’n wynebu’r Brifysgol yn y maes, a'r her bennaf yw recriwtio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Dywedwyd wrth yr aelodau fod camau ar waith i roi sylw i'r mater ac mae is-grŵp o'r Pwyllgor Marchnata a Recriwtio wedi'i sefydlu i ganolbwyntio'n benodol ar y maes. O ran ymgysylltiad y staff â’r Gymraeg, nodwyd y bu effaith y pandemig, a’r symud at weithio hybrid yn heriol, gan arwain at leihad yn y defnydd o’r Gymraeg, a fuasai’n naturiol fel arall o ran y ddefnydd ymhlith cydweithwyr yn y gweithle.

Rhoddodd Dr Jones drosolwg o'r Cynllun Gweithredu, ac roedd y Cyngor yn falch o nodi bod 20 o'r 24 pwynt gweithredu ar y Cynllun presennol wedi'u cwblhau eleni. Nodwyd llwyddiannau penodol gan gynnwys datblygu cwrs gorfodol i’r staff ar Bolisi Iaith Gymraeg y Brifysgol; noson Gwobrau’r Gymraeg a gynhaliwyd i gydnabod ymdrechion y staff sy’n cefnogi’r Gymraeg; datblygu taflen newydd' *Y Gymraeg ym Mangor*' a’r Ffair Swyddi Cymraeg a gynhelir gan y myfyrwyr. Trafodwyd sawl Dangosydd Perfformiad Allweddol cyfredol hefyd. Fodd bynnag, nododd Dr Jones, er bod llawer iawn wedi’i wneud, bod llawer o waith i’w wneud o hyd i sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i fod yn arloeswr dros y Gymraeg yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

B. Fel Cadeirydd Pwyllgor Materion y Gymraeg, gofynnodd Ms Wyn a allai'r Brifysgol gofrestru myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn awtomatig ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg, gan fod hwnnw’n ddull y mae prifysgolion eraill yng Nghymru’n ei arfer. Cadarnhaodd yr Athro Edwards fod hynny’n rhywbeth y mae'r Brifysgol yn gweithio tuag ato ar hyn o bryd.

Llongyfarchodd Dr Rees y Brifysgol ar y gwaith a wnaed hyd yma. Parthed recriwtio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gofynnwyd a ddylai hynny fod yn Ddangosydd Perfformiad Allweddol o fewn y Strategaeth. Dywedodd yr Athro Edwards wrth y Cyngor fod yna Ddangosydd Perfformiad Allweddol yn y Strategaeth Marchnata a Recriwtio sy'n monitro'r maes recriwtio hwn yn benodol.

Llongyfarchwyd y Brifysgol ar benodi tri Deon cyfrwng Cymraeg yn y Colegau. Cadarnhaodd yr Athro Edwards fod hwn yn ddatblygiad o bwys sy'n amlygu ymrwymiad y Brifysgol i bwysigrwydd y Gymraeg. Nodwyd y bydd Dr Jones a'r Athro Edwards yn gweithio gyda'r Deoniaid yn glos i dyfu meysydd pwnc cyfrwng Cymraeg.

Wrth ateb cwestiwn yr Athro White ynghylch meincnodi â phrifysgolion eraill Cymru, dywedodd Dr Jones fod Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi bwletin ystadegol bob haf sy’n cymharu prifysgolion Cymru. Yn fersiwn ddiwethaf y bwletin, nodwyd bod y Brifysgol yn gyfrifol am dros 40% o’r myfyrwyr sy’n astudio o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn perfformio'n well o ran trosi i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nododd yr Athro Edwards hefyd, er bod rhywfaint o danberfformio

o hyd mewn pynciau allweddol megis busnes, mae ymdrechion yn parhau i gynyddu'r niferoedd. Yn arbennig felly mewn meysydd rhaglen newydd megis Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, lle'r oedd y Brifysgol yn derbyn cyllid grant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i benodi darlithydd cyfrwng Cymraeg.

C. Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Edwards a Dr Jones am gyflwyniad llawn gwybodaeth a'u llongyfarch ar y gwaith a wnaed hyd yma. Awgrymwyd y gallai'r berthynas a'r gorgyffwrdd rhwng Strategaeth y Gymraeg a'r strategaethau eraill fod yn sail i ddiweddariad i'r Cyngor yn y dyfodol.

*Gadawodd Dr Jones y cyfarfod.*

**23.79 YSGOL ARFAETHEDIG Y GYMRAEG**

A. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Athro Enlli Thomas i gyflwyno cynnig Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas i ailsefydlu Ysgol y Gymraeg. Rhoddodd yr Athro Thomas drosolwg byr o'r cynnig, ac amlygodd rai o fanteision niferus sefydlu'r Ysgol newydd, a fydd yn dod ag Adran y Gymraeg a Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin ynghyd. Nodwyd y byddai creu'r Ysgol newydd yn dod â màs critigol o staff ynghyd, a byddai'n gyfle i adeiladu ar lwyddiannau'r ysgolheictod Cymraeg, y ddarpariaeth dysgu Cymraeg, ac yn rhoi cyfle euraidd i blethu rhaglenni cyfrwng Cymraeg academaidd ac ymarferol ynghyd. Byddai sefydlu'r Ysgol hefyd yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i'r Gymraeg ac i gyflawni'r amcanion a nodir yn Strategaeth 2030, Strategaeth y Gymraeg ac i'r themâu a geir yn nifer o strategaethau eraill y Brifysgol.

Nodwyd i'r Is-Ganghellor godi'r cynnig yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, ac y gwnaed cytundeb mewn egwyddor i ganiatáu i'r Brifysgol symud ymlaen gyda'r camau angenrheidiol i sefydlu'r Ysgol. Adroddwyd bod y cynnig wedi bod trwy broses ymgynghori gadarnhaol iawn ers y cyfarfod hwn gyda staff Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau, a ledled y Brifysgol. Yn ogystal, bu ymgynghori â'r myfyrwyr, yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth, a'r Senedd. Croesawodd yr Athro Edwards, fel Dirprwy Is-Ganghellor y Gymraeg, y cynnig, a nododd y byddai'r cyfleoedd a ddeuai yn ei sgil yn gadarnhaol iawn i'r Brifysgol. Ychwanegodd yr Is-Ganghellor fod y cynnig yn ddatblygiad strategol pwysig i'r Brifysgol o ran ei threftadaeth a'i hanes.

B. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau oddi wrth yr aelodau a gofynnodd yr Athro White am eglurhad o'r manylion a'r risgiau a'r rhwymedigaethau perthnasol. Cadarnhaodd yr Is-Ganghellor mai ad-drefnu mewnol oedd y cynnig, a oedd yn cynnwys dwy adran gyfredol o fewn yr Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau. Yr unig gyllid ychwanegol uniongyrchol fyddai ei angen oedd lwfans Pennaeth Ysgol, a nodwyd, yn yr achos dan sylw, ei bod yn debygol mai penodiad mewnol fyddai hwn. Yn ogystal, efallai y bydd costau anuniongyrchol bach yn gysylltiedig â gweinyddu a chynllunio. Cadarnhawyd mai staff Prifysgol Bangor yw'r holl staff sydd ynghlwm wrth y cynnig.

Nododd Dr Rees ei gefnogaeth i'r cynnig ond pwysleisiai'r angen i sicrhau bod Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin yn parhau i gael yr un gydnabyddiaeth a chyfleoedd fel rhan o'r Ysgol newydd.

Cododd Ms Wyn y risgiau posib o ran cyllid Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin, a'r posibilrwydd y byddai'r Ganolfan yn colli cyllid i ddarparwr arall yn y dyfodol. Yn ogystal, gofynnodd am sicrwydd na fyddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar Ganolfan Bedwyr. Cydnabu'r Athro Thomas y pwyntiau a wnaed a nododd y bydd angen i'r Brifysgol fonitro datblygiad tirwedd y ddarpariaeth Gymraeg yn y flwyddyn sydd i ddod, gan gyfeirio hefyd at y Bil Addysg Gymraeg. Yn ogystal, ychwanegodd yr Is-Ganghellor y byddai'r adolygiad ehangach o'r gwasanaethau proffesiynol yn ystyried a oedd y swyddogaethau yn y meysydd cywir, a byddai hynny'n cynnwys cyd-destun yr ysgol academaidd newydd.

Rhoddodd Ms Ambreen ei chefnogaeth i'r cynnig a gofynnodd am yr amserlen weithredol. Cadarnhaodd yr Athro Thomas, pe câi'r cynnig ei gymeradwyo gan y Cyngor, mai 1 Medi fyddai dyddiad cychwyn tebygol yr ysgol newydd. Yn ogystal, adroddwyd mai'r cynllun yn y tymor hir yw cydleoli'r ddwy uned. Caiff hynny ei ddatblygu gan y Prif Swyddog Gweithredol maes o law.

Cyfeiriodd Mr Tomos at adroddiad diweddar cadarnhaol iawn gan Estyn ynghylch Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin. Yn ogystal, nodwyd y byddai cyfuno'r ddwy adran yn dod â gwell cyfleoedd recriwtio i'r Brifysgol ac yn amlygu pwysigrwydd y Brifysgol yn y gymuned. Rhoddodd Mr Tomos ei gefnogaeth i'r cynnig, gan nodi'r ymgynghori cadarn a fu a'r gefnogaeth a roddwyd gan yr Is-Ganghellor a'r Bwrdd Gweithredol.

Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd cadw a gwarchod yr ethos Cymraeg a sefydlwyd yn yr Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau dros y blynyddoedd diwethaf, pe câi'r cynnig i sefydlu Ysgol y Gymraeg ei gymeradwyo.

C. Ar ôl trafod, **cymeradwyodd** y Cyngor sefydlu Ysgol newydd y Gymraeg.

## 23.80 BRIFF LLAFAR Y DIRPRWY IS-GANGHELLOR / PENNAETH COLEG Y CELFYDDYDAU, Y DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHAS

Oherwydd cyfyngiadau amser, **cytunwyd** y byddai'r Athro Thomas yn dod i gyfarfod nesaf y Cyngor i roi diweddariad llafar byr ynglŷn â'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas.

*Gadawodd yr Athro Enlli Thomas y cyfarfod.*

## 23.81 COFNODION

A. **Cadarnhawyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai 2024.

B. Cafwyd cofnod gweithredu a oedd yn nodi’r cynnydd ar holl gamau gweithredu’r Cyngor sydd heb eu cwblhau. Nododd y Cyngor yr adroddiadau o gynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

**Siarter Atodol ac Ordinhadau (Cofnod 21.5C)**

Nodwyd i Ysgrifennydd y Brifysgol adrodd bod y Brifysgol wedi derbyn y Siarter Atodol newydd oddi wrth y Cyfrin Gyngor, a bod gwaith wedi dechrau ar ddiweddaru’r Ordinhadau.

**C. Nodwyd diweddariad Cynllun Gwaith y Cyngor.**

Gofynnodd yr Athro White am yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â phryd y byddai'r Cyngor yn cael sesiwn friffio ynglŷn ag ymgysylltu byd-eang. Dywedodd yr Is-Ganghellor y gohiriwyd hynny rhyw ychydig oherwydd absenoldeb y Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltu Byd-eang. Nodwyd bod y dyletswyddau, yn y cyfamser, wedi'u hail-ddosbarthu i’r Athro Edwards, yr Athro Turnbull a'r Athro Callow a’u bod yn bwrw ymlaen gyda’r materion allweddol. **Cytunwyd** y câi diweddariad ei gyflwyno i'r Cyngor fis Medi.

## 23.82 DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD

Nododd y Cadeirydd yr etholwyd llywodraeth Lafur newydd yn San Steffan ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Roedd yn braf nodi sylwadau cychwynnol y Gweinidogion ynghylch yr heriau ariannol sy’n wynebu’r sector addysg uwch a chynnal y fisa llwybr graddedigion. Yn ogystal, mae newidiadau i’w gweld yng Nghymru hefyd, gydag ymddiswyddiad y Prif Weinidog.

Nodwyd y daw HEFCW i ben yn swyddogol ar 31 Gorffennaf, ac y daw MEDR yn ei le fel y rheoleiddiwr newydd o 1 Awst ymlaen. Bu digwyddiad ymgysylltu cadarnhaol yn ddiweddar, rhwng MEDR a'r holl gynrychiolwyr addysg ôl-16 a bu’r Cadeirydd, yr Is-Ganghellor, ac aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol yn bresennol.

**Nodwyd** dogfen Dyraniadau Cyllid HEFCW a gynhwyswyd er gwybodaeth ym mhapurau'r cyfarfod.

## 23.83 DIWEDDARIAD YR IS-GANGHELLOR

A. Rhoddodd yr Is-Ganghellor ddiweddariadau i’r Cyngor am nifer o feysydd allweddol.

**<u>Materion Ariannol</u>**

Nododd yr Is-Ganghellor fod y sefyllfa ariannol yn dal yn heriol ledled y sector, a bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyflwyno manylion pellach ynglŷn ag effaith y sefyllfa ar y Brifysgol yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

**Diweddariad ynghylch Ymchwil**

Dywedodd yr Is-Ganghellor i HEFCW gyhoeddi dyraniad rownd nesaf Cyllid Arloesi Ymchwil Cymru’n ddiweddar. Nodwyd bod nifer o fetrigau yn arolwg statudol Rhyngweithiad Addysg Uwch - Busnes a Chymuned (HE-BCI) yn effeithio ar gyllid. Gwella a wnaeth perfformiad y Brifysgol yn y prif fetrigau allweddol (Ymchwil Cydweithredol ac Ymchwil Contract), gyda chynnydd yn y dyraniad o 6%. Fodd bynnag, mae HEFCW yn gweithredu gostyngiad o 6% i bob dyraniad, gan arwain at setliad ariannol gwastad.

Yn ogystal, adroddwyd bod canlyniadau'r Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Ymchwil (PRES) cenedlaethol wedi'u rhyddhau. Safle cyffredinol y Brifysgol oedd 10fed o blith 53 o Sefydliadau, ac mae'r sgôr boddhad cyffredinol hefyd wedi cynyddu 3% i 86%. Diolchodd yr Is-Ganghellor i'r staff am ganlyniad da.

**[Materion Cyfyngedig]**

**Ymweliadau a Digwyddiadau**

Hysbyswyd y Cyngor o’r ymweliadau a’r digwyddiadau a ganlyn ers y cyfarfod diwethaf:

- Cyflwynodd yr Is-Ganghellor wobrau i dros 20 o gydweithwyr a gwblhaodd y Rhaglen Rheolwyr, a llongyfarchwyd yr holl staff a gymerodd ran.

- Bu Dawns Haf Undeb y Myfyrwyr yn llwyddiant ac roedd dan ei sang. Diolchwyd i'r holl staff a fu'n ymwneud â gwneud y digwyddiad yn gymaint o lwyddiant.

- Adroddodd yr Is-Ganghellor iddo ymweld ag Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd ym Maldwyn ddiwedd mis Mai, a Sioe Frenhinol Cymru fis Gorffennaf. Yn y ddau achos, roedd yn dda ganddo weld cymaint o staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr yn ymweld â stondin y Brifysgol.Mae paratoadau ar y gweill bellach ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ddechrau mis Awst, ac anogwyd aelodau'r Cyngor i ymweld â stondin y Brifysgol pe baent yn mynd iddi.

- Roedd y graddio ddechrau mis Gorffennaf yn ddigwyddiad cadarnhaol a llwyddiannus unwaith eto. Croesawodd y Brifysgol naw o unigolion nodedig i’r Brifysgol i dderbyn Graddau er Anrhydedd a Chymrodoriaethau yn ystod yr wythnos, gan greu’r hyn a fydd, gobeithio, yn rhoi cychwyn ar gysylltiadau gydol oes a fydd yn fuddiol i’r ddwy ochr.

B. **Diweddariad Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr**

Gwahoddwyd yr Athro Turnbull i roi diweddariad byr ynglŷn â chanlyniadau'r Arolwg a dderbyniwyd yn ddiweddar.

Adroddodd yr Athro Turnbull ei bod yn braf nodi bod boddhad cyffredinol Bangor yn 80%, cynnydd o 10% ers 2023, ac i Ysgolion ledled y Brifysgol wneud yn dda, yn enwedig o ran boddhad cyffredinol.

Caiff adroddiad manylach, ynghyd â gwerthusiad o gynlluniau gweithredu 2023/24 a'r camau sydd ar waith at 2024/25, eu cyflwyno i'r Cyngor fis Medi.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Brifysgol ar y canlyniadau cadarnhaol cyffredinol a nododd yr ymrwymiad i ddarparu briff manylach yn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd hefyd ganlyniadau cadarnhaol yr Arolwg Profiad Ôl-radd Hyfforddedig.

C. **Adolygiad o Effeithiolrwydd y Senedd**

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Athro Tim Wheeler i gyflwyno ei adroddiad ynglŷn â'r Adolygiad ac Effeithiolrwydd y Senedd. Nodwyd y lluniwyd yr adroddiad, a ddatblygwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn sgil argymhellion yr Adolygiad blaenorol ar Effeithiolrwydd Llywodraethu. Adroddwyd y gwnaed asesiad ar sail tair agwedd ar y drefn lywodraethu: Cyfansoddiad y Senedd, Strwythur y Senedd a Rhyngweithio'r Senedd.

Nodwyd nifer o argymhellion yn yr adroddiad fel a ganlyn:

- Cynnal adolygiad o strwythur, hyd a chynnwys cyfarfodydd y Senedd er mwyn galluogi'r aelodau i drafod mwy ar faterion strategol a sicrhau bod anghenion y myfyrwyr presennol a myfyrwyr y dyfodol yn parhau i gael eu cynrychioli yn y drafodaeth honno.
- Adolygu aelodaeth y Senedd, a dod â chyfanswm yr aelodaeth i lawr i 30.
- Ystyried ffyrdd o gynnwys y Senedd ehangach o ran cefnogi gweithrediad y cynllun academaidd ar gyfer addysgu ac ymchwil, ac i gyfleu un weledigaeth a chenhadaeth ynglŷn â dyfodol y Brifysgol o dan drefniadau llywodraethol newydd.
- Datblygu ymhellach y cynlluniau hyfforddi i fyfyrwyr sy'n aelodau ac adnoddau i gefnogi anghenion datblygu a nodwyd, a hynny mewn ffordd sydd wedi ei theilwra i gefnogi rhyngweithio a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhellach.
- Ystyried ffyrdd i'r Senedd ehangu ymwybyddiaeth o'i swyddogaeth gydag aelodau'r Brifysgol.

Nodwyd y cyflwynwyd yr Adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol, ac i'r Senedd. Cafwyd cefnogaeth gadarnhaol i'r argymhellion yn y ddau gyfarfod.

Wrth ateb cwestiwn gan Mr Tomos, cadarnhaodd yr Athro Wheeler o ran yr aelodaeth y bu'n edrych ar arferion gorau sefydliadau eraill. O ystyried bod 60 o aelodau ar hyn o bryd, penderfynodd argymell 30, gan nodi bod 4 o'r 30 aelod yn gyfetholedig, a bod angen cymeradwyaeth y Senedd i'w penodi.

Nododd yr Is-Ganghellor sefydlu'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth yn ystod 2023/24, a oedd yn trafod materion a oedd yn ymwneud ag arweinyddiaeth strategol. Ystyriwyd

mai'r Grŵp hwnnw, yn gweithio ochr yn ochr â'r Senedd, oedd y strwythur llywodraethu priodol i’r Brifysgol.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Is-Ganghellor i'r Athro Wheeler am ymgymryd â thalp da o waith.

Ar ôl ystyried, **cymeradwyodd** y Cyngor y cynigion a wnaed yn yr Adroddiad.

D. **Nododd** y Cyngor adroddiadau’r Senedd a’r Bwrdd Gweithredol.

*Gadawodd Dr Ama Eyo y cyfarfod.*

## 23.84 MATERION CYFYNGEDIG

## 23.85 MATERION CYFYNGEDIG

*Ailymunodd Dr Ama Eyo â'r cyfarfod.*

## 23.86 ADRODDIAD UNDEB Y MYFYRWYR

Gwahoddodd Cadeirydd y Cyngor Ms Ambreen a Mr Rowlands, fel Llywydd newydd Undeb y Myfyrwyr a Llywydd UMCB i roi diweddariad llafar ynghylch eu blaenoriaethau am y flwyddyn sydd i ddod.

Dyma rai pwyntiau allweddol:

- Byddai gostyngiad arfaethedig yng nghyllid y Brifysgol i Undeb y Myfyrwyr yn cael ei wneud dros gyfnod o 3 blynedd, yn hytrach na’r cynnig gwreiddiol o ddwy flynedd yn sgil y trafodaethau gydag aelodau’r Bwrdd Gweithredol. Byddai Undeb y Myfyrwyr yn cynnal ymgynghoriad llawn yn ystod y cyfnod hwnnw gyda’r myfyrwyr yn yr amser hwnnw’n gefn i fodel ariannu newydd i’r clybiau a’r cymdeithasau.
- Penodwyd tri myfyriwr sy’n ymddiriedolwyr newydd yn amodol ar gadarnhad gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Mae tîm newydd y Swyddogion Sabothol wedi ymgymryd â nifer o gyrsiau hyfforddi a meithrin tîm ac arweinyddiaeth dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Gwahoddwyd y Swyddogion Sabothol hefyd i gymryd rhan yn y seremonïau graddio diweddar. Mwynhaodd y swyddogion ddathlu llwyddiannau myfyrwyr Bangor a chafodd araith y Swyddogion groeso mawr.
- Treuliodd y swyddogion amser yn mapio eu blaenoriaethau a'u hamcanion unigol. Nodwyd bod cefnogi’r myfyrwyr gyda'r argyfwng costau byw yn fater o bwys cyffredinol. Yn ogystal, caiff tri maes allweddol sylw yn ystod y flwyddyn, sef unigrwydd, cefnogi iechyd meddwl a llesiant, a gwella diogelwch y myfyrwyr.
- Bydd y gwaith yn parhau ar ddwy ymgyrch fawr: ymgyrch 'Gyda’n Gilydd' ar y cyd gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, a 'Dydd Mawrth Dweud'.
- Bu Ms Ambreen yn rhan o drafodaethau gyda'r Brifysgol a'r Bwrdd Iechyd ynghylch Ymgyrch Pwysau Iach ac mae'n edrych ymlaen at fwrw ymlaen â hynny.

- Gan gydnabod pwysigrwydd parhad a thrawsnewid yr arweinyddiaeth yn effeithiol, aethpwyd ati i recriwtio uwch gynrychiolwyr, a fu'n gwasanaethu fel cynrychiolwyr cwrs yn flaenorol. Mae hynny'n sicrhau bod yr uwch gynrychiolwyr wedi'u hintegreiddio'n llawn ac yn barod i gefnogi'r cynrychiolwyr cwrs newydd o ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae'r dull ragweithiol yn gwella effeithiolrwydd system cynrychiolaeth y myfyrwyr ac mae'n hwyluso trosglwyddo llyfnach rhwng rolau arweinyddol y myfyrwyr, yn ogystal â helpu lleihau costau hyfforddi.
- Mae Undeb y Myfyrwyr yn dal i weithio ar gyflwyniad ar y cyd at yr Adolygiad Gwella Ansawdd (QER).
- Bu Undeb y Myfyrwyr yn rhan o ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil y Brifysgol. Cafodd nifer o ymrwymiadau  Undeb y Myfyrwyr eu cynnwys fel rhan o'r cynllun gweithredu terfynol.
- Mae trafodaethau ar y gweill gyda Chlerc Cyngor Dinas Bangor i sefydlu bwrsariaethau ymchwil sy'n anelu at gefnogi myfyrwyr ymchwil y mae gan eu hymchwil y potensial i gyfrannu at adfywiad y stryd fawr neu fentrau lleol.
- Cafodd sesiynau cymorth astudio, sydd wedi'u cynllunio i roddi cefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr mewn cyfnodau academaidd heriol, eu cynnal drwy gydol y flwyddyn academaidd.
- Cynhyrchwyd Adroddiad Mewnwelediad Myfyrwyr (SIR) ynglŷn ag anghenion myfyrwyr rhyngwladol yn ddiweddar. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Brifysgol cyn hir a'r nod yw helpu'r Brifysgol gryfhau ei dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu myfyrwyr rhyngwladol.
- Nododd Mr Rowlands ei fod yn dymuno sicrhau bod llais y myfyrwyr Cymraeg yn cael ei glywed a bod cyfleoedd i'r rhai sydd am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Caiff y Gymraeg ei hyrwyddo ar lefel academaidd a chymdeithasol, a chaiff gweithgareddau UMCB eu hybu hefyd ledled y Brifysgol ac yn y gymuned.
- Bydd UMCB yn parhau i weithio gyda'r Brifysgol i hyrwyddo Strategaeth y Gymraeg, a recriwtio myfyrwyr Cymraeg lleol i'r Brifysgol.
- Rydym yn cynllunio pen-blwydd y neuaddau preswyl Cymraeg  – Neuadd John Morris Jones – yn hanner cant ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Ambreen a Mr Rowlands am eu hadroddiadau cynhwysfawr.  Llongyfarchwyd Mr Rowlands hefyd ar raddio'n ddiweddar.

## 23.87 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

A. **Nodwyd** adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2024.

B. Tynnodd Syr Paul Lambert sylw'r Cyngor at yr isod:

- Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol: Nodwyd bod y risg ariannol wedi cynyddu oherwydd yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.  Mae 14 o risgiau ar hyn o bryd y tu hwnt i'r ystod risg oddefadwy a bydd gofyn i berchnogion y risgiau fonitro'r rheini'n barhaus.
- Nodwyd yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog Gweithredu, er gwybodaeth (cofnod 796).

- Adroddwyd ynghylch 5 digwyddiad difrifol i’r Comisiwn Elusennau rhwng Ionawr a Mai (cofnod 797).

**23.88 FFORWM YMGYSYLLTU AR Y CYD**

A. **Nodwyd** adroddiadau o gyfarfodydd y Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd a gynhaliwyd ar 8 Mai 2024 a 28 Mehefin 2024.

B. Mynegodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad o barodrwydd cyson holl gynrychiolwyr undebau llafur y campws i chwarae rhan weithredol yn y Fforwm.

**23.89 PWYLLGOR POBL A DIWYLLIANT**

A. **Nodwyd** adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2024.

B. Dywedodd Dr Rees wrth y Cyngor:

- Roedd y Pwyllgor wedi cytuno ynghylch y Datganiad ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl, a **nododd** y Cyngor y Datganiad a oedd ynghlwm wrth y cofnodion er gwybodaeth (cofnod 90).
- Roedd y Pwyllgor wedi cytuno i ofyn am adroddiad manwl i’r agweddau ar yr Adroddiad Perfformiad Integredig a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor (cofnod 101).

**23.90 MATERION CYFYNGEDIG**

**23.91 PWYLLGOR MATERION Y GYMRAEG**

A. **Nodwyd** adroddiad cyfarfod Pwyllgor Materion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 23 Mai 2024.

B. Dywedodd Ms Wyn wrth y Cyngor y croesawyd Aelod Cyfetholedig newydd, Dr Catrin Jones, i'w chyfarfod cyntaf. Mae materion eraill, gan gynnwys Strategaeth y Gymraeg ac Ysgol arfaethedig y Gymraeg, eisoes wedi’u trafod y cyfarfod.

Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i holl gadeiryddion y Pwyllgorau am eu hymroddiad a'u cyfraniad drwy gydol y flwyddyn.

**23.92 SELIO**

**Cadarnhaodd** y Cyngor selio’r dogfennau a restrir yn Agendwm 12.

**23.93 Y FFURFLEN FLYNYDDOL I'R COMISIWN ELUSENNAU**

**Nododd** y Cyngor y Ffurflen Flynyddol i'r Comisiwn Elusennau a diolchodd i'r rhai a fu'n ymwneud â chwblhau'r datganiad mewn da bryd.

## 23.94 SYLWADAU I GLOI

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gyfarfod adeiladol a chynhyrchiol, ac am fwrw ymlaen â nifer o faterion allweddol. Ar ran y Cyngor diolchodd y Cadeirydd i'r Is-Ganghellor, y Bwrdd Gweithredol, a'r holl staff am eu gwaith dros y deuddeg mis diwethaf. Yn ogystal, diolchwyd i aelodau'r Cyngor am eu cyfraniad a'u hymroddiad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Diolchwyd i'r tîm cyfieithu am eu cymorth, ac i Ysgrifennydd y Brifysgol a Mrs Williams am eu gwaith caled dros y flwyddyn.

**Nodwyd** y caiff llun blynyddol y Cyngor, a ddefnyddir yn yr Adroddiad Blynyddol, ei dynnu yng nghyfarfod mis Medi. Anogwyd yr holl aelodau i fod yn bresennol yn y cnawd lle bo hynny'n bosibl.

**Cytunwyd** y byddai Mrs Williams yn dosbarthu rhestr o ddyddiadau'r Cyngor a’r Pwyllgorau am y flwyddyn academaidd sydd i ddod.